



Enghraifft: **Gwyliau Cam 1**

Asesu mewn grŵp o 3-5 hyfforddai

Tasg Lafar: Trafodaeth yn cynnwys holi am fanylion personol, sgwrs gyffredinol am y cwrs ac ardal y coleg.

Yna, trafod gwyliau:

Ydych chi'n mynd ar wyliau yr haf yma? I ble? Gyda phwy? Am faint, wythnos, deg diwrnod neu bythefnos?. Sut ydych chi'n mynd?

Gemau Llafar mewn cylch : 1. Dilyn y patrwm ac ychwanegu:

Dw i'n mynd ar fy ngwyliau i ----- eleni.

Bydd yr ail hyfforddai'n dweud: *Mae ---- yn mynd i ---- a dw i'n mynd ar fy ngwyliau i ----.*

Pawb yn ei dro, nes mae'r person cyntaf yn y cylch wedi ail adrodd y manau gwyliau i gyd!

2. Cwis Gwyliau pum munud: 2 dîm, holi cwestiynau bob yn ail.

Bydd map yn cynnwys atebion i helpu'r hyfforddeion. *ee: Ble maen nhw'n bwyta pasta/pitsa/cyri/paella/malwod?*

Pa liwiau sy ar faner/Beth ydy lliw baner...?. Sut dywydd maen nhw'n gael yn...?. Beth ydy enw prif ddinas...?.

Beth maen nhw'n dyfu yn...?

Tasg Ddarllen: Darllen a throsglwyddo ffeithiau. Cerdyn ar gyfer pob hyfforddai; wedi darllen y

cynnwys (gweler enghraifft isod) bydd pawb yn cyflwyno'r wybodaeth i'r hyfforddeion eraill yn

eu tro. Os bydd amser, gellir holi ac ateb ymhellach am y gwledydd dan sylw.

Ffrainc	Prif ddinas: Paris	Baner: trilliw streipiau coch,glas a gwyn	Iaith: Ffrangeg
Bwydydd: malwod, coesau llyffantod...bara hir, croissants, garlleg...	Geirfa ddefnddiol: bonjour, merci, ou est...? Je m'appelle...	Ardaloedd yn Ffrainc: Bordeaux, Champagne, Provence, Normandie	Enwogion: Napoleon, Charles deGaulle, Eric Cantona, Brigitte Bardot

Tasg Ysgrifennu

Anfon cerdyn at ffrind.

Mae Sam wedi bod ar

wyliau i America. Beth

mae'n ddweud yn y cerdyn

post yma?

Mae Anti Gwen yn Majorca.

Ond, SOS! Yn anffodus,

mae wedi colli ei waled!

Does ganddi ddim arian.

Mae eisiau help! Beth mae'n ofyn yn ei neges e bost?



Enghraifft: **Gwyliau Cam 2**

Asesu mewn grŵp o bedwar hyfforddai, bob yn bâr ac yn unigol

Tasg Lafar: Trafodaeth gyffredinol yn holi am fanylion personol, cefndir, pynciau a astudir, ymweliadau ag ysgolion etc. Yna, trafodaeth benodol am atgofion gwyliau.

e.e. Ble oeddech chi'n mynd ar wyliau yn blentyn...? Ble oeddech chi'n aros?

Gyda phwy? Sut oeddech chi'n teithio...? Be oeddech chi'n wneud/fwyta/hoffi orau am y gwyliau...?

Tasg Lafar bob yn bâr: Map o Ewrop ac un wlad wedi ei lliwio; bydd nifer o gwestiynau i'r hyfforddeion eu hateb.

Yna byddant yn cyflwyno gwybodaeth i'r pâr arall a hwythau'n ceisio ychwanegu cwestiynau neu wybodaeth bellach cyn cyflwyno'r wlad maent wedi ei thrafod.

Tasg Ddarllen: Dyddiadur gwyliau Angharad yng Nglan-Ilyn. Llenwch pob gofod wrth ddarllen yr hanes!

Sadwrn 12fed: Siwrnai hir y bore 'ma, cychwyn am 8.00. Dad yn gyrru. Siwan yn dost ar y ffordd ac yn swian non stop! Yma erbyn 12.00. Stafell yn braf. Allan ar y llyn mewn canŵ drwy'r p'nawn. Heno.....

Sul 13eg: Heb godi i gael brecwast – cysgu fel top! Pawb yma'n gyfeillgar, ond mae'n anodd deall rhai o'r Hwntws yn siarad!

Llun 14eg: Glaw drwy'r dydd a phawb yn ddiflas. Chwarae ping pong a snwcer gyda Dewi o'r Rhyl y bore 'ma. Fe a'i ffrindiau'n dipyn o gesus! Helfa drysor am 3.30, be wna i wisgo?.....

Mawrth 15fed: Nofio gyda ffrindiau a cherdded i Lanuwchllyn cyn cinio. Paratoi ar gyfer y Noson Lawen heno. Mae Glan-Ilyn yn wych! Gwelais Dewi y p'nawn yma.....

Mercher 16eg: Pawb allan drwy'r dydd heddiw; ymweld â'r Bala, ar y trênn bach ac i fyny'r Aran y p'nawn 'ma. Coesau fel jeli erbyn hyn – cyhyrau'n dynn! Disgo yn cychwyn am 7.30. Gwisgo

Iau 17eg: Siwan wedi bod yn dost yn y nos. Galw'r doctor bore 'ma, fe'n credu bod angen iddi fynd i'r ysbyty'n Wrecsam. Ambiwylans

Gwener 18fed: Siwan yn cael triniaeth apendix bore 'ma, druan! Mynd i'w gweld yfory cyn mynd yn ôl. Angen pacio ei chês cyn mynd allan ar y llyn. Mae'n od iawn hebddi! Disgo heno – tybed wela i Dewi?.....

Sadwrn 19eg: Barod am y siwrne. Rhieni Siwan yn dod yma ac yna'n syth i Ysbyty Maelor, Wrecsam i weld Siwan.....

Tasg Ysgrifennu:

Cynlluniwch hysbyseb am wyliau yng Nglan-Ilyn i gylchgrawn yr Urdd, IAW. Mae angen dweud mor 'cŵl' ydy gwyliau yno!

Dim mwy na 100 o eiriau:



Enghraifft: Gwyliau Cam 3

Asesu bob yn bâr ac yn unigol

Tasg Lafar/Darllen: Wedi'r drafodaeth gychwynnol, trafod mannau gwyliau delfrydol.

Bydd cyfle i ddarllen y testun byr enghreifftiol isod a llunio nodiadau cyn cyflwyno'r wybodaeth hyfforddai arall. Bydd cyfle hefyd i lunio nodiadau wrth holi, yn ystod yr ail dasg.

Ble hoffet ti fynd ar dy wyliau perffaith? Hoffwn i hedfan o Gaerdydd i Singapore, aros yno am dridiau ac yna hedfan i Bali am bythefnos. Mae'r traethau'n wyn a'r tyfiant yn wyrdd; mae ffrwythau ffres fel mango yn tyfu yno a'r haul yn boeth, y môr yn glir a chynnes a'r awyr yn las, las. Maen nhw'n dweud bod y bobl yn hyfryd a'r bwyd yn flasus. Gwyliau perffaith!

Tasg Ddarllen/Llafar: Bydd y 2 hyfforddai'n llunio rhestr siopa a rhestr o bethau i'w pacio ar gyfer eu gwyliau perffaith nhw, yna'n cymharu'r rhestr a holi ymhellach.

Cyfle i gymharu'r mathau o ddillad/nwyddau y byddai'r 2 yn ddewis i fynd ar y gwyliau.

e.e. Pa fath o hufen haul fyddi di'n ddefnyddio? Pam? Wyt ti'n gwisgo siorts ar wyliau? Fyddi di'n hoffi nofio yn y môr neu'r pwll nofio? Ble hoffet ti aros, gwesty moethus 5, fflat gyda balconi'n edrych dros y môr, tŷ mawr yn y wlad a phwll nofio cynnes, pabell neu iwrt...? ayb*

Yna adrodd yn ôl gan gyflwyno'r wybodaeth am eu partner, yn hytrach na'i hunan.

e.e. Bydd yn mynd ar ei gwyliau/wyliau i _____ ac yn pacio _____ a mynd â ...

Tasg Ysgrifennu:

Rydych yn trefnu eich gwyliau perffaith yn yr asiantaeth wyliau leol. Mae Deian, yr asiant eisiau manylion gennych cyn i chi benderfynu'n derfynol ble rydych am fynd. Pa **atebion** mae e angen gennych chi tybed? Nodwch atebion perthnasol: e.e. Hoffwn hedfan/deithio ar fferi/deithio'n annibynnol... Dim mwy na £... ayb

Erbyn hyn, rydych wedi dod i gasgliad mai i Seland Newydd yr ewch chi am dair wythnos hyfryd o wyliau. Mae gennych amser i holi cwestiynau pellach i Deian cyn iddo orffen trefnu'r daith. Lluniwch nifer o gwestiynau fydd yn ateb unrhyw bryderon sydd gennych a rhoi mwy o wybodaeth i chi cyn i chi dalu'r flaendal.

e.e. Oes yna bryfaid perygl yn Seland newydd? Fydd angen dillad arbennig i gerdded yno?... ayb